Senedd Cymru

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil Iaith Arwyddion Prydain

Ebrill 2022

1. Cefndir

Bil Iaith Arwyddion Prydain gan Lywodraeth y DU

1. Cyflwynwyd Bil Iaith Arwyddion Prydain[1] ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 16 Mehefin 2021 fel Bil Aelod Preifat. Mae'n cael ei noddi gan yr Aelod Seneddol Rosie Cooper.

2. Mae teitl hir y Bil yn nodi ei ddiben fel a ganlyn:

> *"A Bill to recognise British Sign Language as a language of England, Wales and Scotland; to require the Secretary of State to report on the promotion and facilitation of the use of British Sign Language by ministerial government departments; and to require guidance to be issued in relation to British Sign Language."*

3. Cwblhaodd y Bil ei daith drwy Dŷ'r Cyffredin ar 18 Mawrth 2022, a chafodd ei Ddarlleniad Cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 21 Mawrth 2022. Disgwylir i'r Bil gael ei Drydydd Darlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 27 Ebrill 2022.

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

4. Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu bod angen memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fo unrhyw Fil gan Lywodraeth y DU sy'n Fil perthnasol yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

5. Ar 8 Mawrth 2022, gosododd Jane Hutt AS, y Gweinidog Gofal Cymdeithasol (y Gweinidog), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) gerbron y Senedd mewn perthynas â'r Bil.[2]

6. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 26 Mai

[1] Bil Iaith Arwyddion Prydain, fel y'i cyflwynwyd (Bil 33 2021-22)

[2] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Bil Iaith Arwyddion Prydain, Mawrth 2022

2022.[3] Ar 22 Mawrth 2022, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar ddyddiad cau newydd ar gyfer cyflwyno adroddiad, sef 26 Ebrill 2022.[4]

Darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd yn eu cylch

7. Mae paragraffau 9 i 11 o'r Memorandwm yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru o ba ddarpariaethau yn y Bil y bydd angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, sef:

- cymal 1: Cydnabod Iaith Arwyddion Prydain;
- cymal 2: Dyletswydd yr Ysgrifennydd Gwladol i adrodd ar Iaith Arwyddion Prydain; a
- cymal 3: Canllawiau ar ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain.

8. Ym mharagraff 10 o'r Memorandwm, mae'r Gweinidog yn datgan:

> *"Mae'r holl ddarpariaethau'n ymwneud â'r cymal cadw 'cyfle cyfartal' yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ond maent dod o fewn yr eithriad o ran 'hyrwyddo cyfle cyfartal'. Felly, rydym o'r farn bod y darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Felly, ystyrir bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd mewn perthynas â'r holl ddarpariaethau uchod."*

9. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cytuno bod angen cydsyniad y Senedd mewn perthynas â'r tri chymal.[5]

Safbwynt Llywodraeth Cymru

10. Ym mharagraff 11 o'r Memorandwm, nodir y rhesymau y mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol i'r Bil gynnwys darpariaeth ddatganoledig.

> *"Nid yw'r Bil yn effeithio ar weithrediad unrhyw ddeddfiad neu reol gyfreithiol ac nid yw'n gosod unrhyw rwymedigaethau ar Lywodraeth Cymru nac Awdurdodau Cymreig datganoledig eraill. Bydd y darpariaethau yn y Bil o fudd i bobl Cymru drwy hwyluso'r defnydd o Iaith Arwyddion Prydain gan*

[3] Y Pwyllgor Busnes, Yr amserlen ar gyfer ystyried: Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Iaith Arwyddion Prydain, Mawrth 2022

[4] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried: Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Iaith Arwyddion Prydain, Mawrth 2022

[5] Am grynodeb o safbwynt Llywodraeth y DU, gweler Atodiad A i Nodiadau Esboniadol y Bil.

adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig, sy'n arfer eu swyddogaethau a gadwyd yn ôl yng Nghymru."

11. Daw'r Gweinidog i'r casgliad:

"Yn fy marn i, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU gan fod y Bil yn hyrwyddo cyfle cyfartal mewn ffordd sy'n gymesur â'n safbwynt ni ac nad yw'n cynnig unrhyw ymyrraeth uniongyrchol â swyddogaethau datganoledig. Felly, rwy'n argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i gynnwys y darpariaethau hyn yn y Bil..[6]

2. Ystyriaeth y Pwyllgor

12. Trafodwyd y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 28 Mawrth 2022, a chytunwyd ar ein hadroddiad ar 25 Ebrill 2022.[7]

Ein barn ni

13. Rydym yn nodi asesiad y Gweinidog o'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, ac rydym yn cytuno â'r asesiad hwnnw.

14. Rydym hefyd yn nodi barn y Gweinidog ei bod yn briodol i'r Bil wneud darpariaeth ar gyfer Cymru, ac nad yw'n ymyrryd yn uniongyrchol â swyddogaethau datganoledig.

15. Fodd bynnag, mae'r Bil wedi tynnu sylw at fater pwysig sy'n ymwneud â'r ffordd y mae meinciau cefn yn y Senedd yn gallu cyflwyno Biliau Aelodau. Er bod cynnig i gyflwyno deddfwriaeth meinciau cefn yn y Senedd ar y pwnc pwysig hwn wedi ennyn cefnogaeth yr Aelodau, ni chafwyd cyfle i Aelod gyflwyno'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn y Senedd.[8] Mae hyn yn siomedig. Rydym yn gweld hwn yn gyfle a gollwyd i wneud deddfwriaeth ar gyfer Cymru yng Nghymru, a bwriadwn ddwyn y mater hwn i sylw'r Pwyllgor Busnes.

[6] Y Memorandwm, paragraff 13

[7] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 28 Mawrth 2022 a Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 25 Ebrill 2022

[8] Yn y bumed Senedd, cafodd dadl ar gynnig i nodi cynnig deddfwriaethol Mark Isherwood AS ar gyfer Bil Iaith Arwyddion Prydain ei gynnal yn y Cyfarfod Llawn ar 24 Chwefror 2021; derbyniwyd y cynnig wedi hynny. Yn y chweched Senedd, roedd ei gynnig ar gyfer Bil Iaith Arwyddion Prydain yn aflwyddiannus mewn balot ar gyfer Bil Aelod a gyhoeddwyd ar 22 Medi 2021.